



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG48014

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Diwygiadau i Ran B (Diogelwch Tân) o'r Rheoliadau
Adeiladu a dogfennau canllawiau statudol cysylltiedig,
gan gynnwys cais am dystiolaeth

Dyddiad cyhoeddi: 17 Hydref 2023
Camau gweithredu angenrheidiol: Ymatebion erbyn 09 Ionawr 2024

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar gynigion i wneud y canlynol:

- Diwygio'r gwaharddiad ar ddefnyddio deunyddiau llosgadwy yn waliau allanol adeiladau neu arnynt, gan gynnwys y mathau o adeilad a gwmpesir, atodion megis bleinds, caeadau a chysgodlenni, rhestr o esemptiadau, a chynnig i wahardd defnyddio paneli cyfansawdd metel ar waliau allanol pob adeilad yn benodol
- Pennu terfynau ar y defnydd o ddeunyddiau llosgadwy ar adeiladau penodol dros 11m drwy Ddogfen Gymeradwy B
- Cyflwyno System Rhybudd i Wacáu yn unol â BS 8629 ym mhob bloc newydd o fflatiau (Grŵp diben 1 (a)) sydd â llawr 18m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch
- Cyflwyno Blychau Gwybodaeth Diogel ym mhob bloc newydd o fflatiau sydd â llawr 11m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch
- Cyflwyno dulliau o adnabod lloriau ac arwyddion tywys ym mhob bloc newydd o fflatiau sydd â llawr 11m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch
- Gwneud diwygiad ynglŷn â chyfeiriadau at ddsbarthiadau tân BS EN 13501 a BS 476 a ddefnyddir yn Nogfen Gymeradwy B a diwygio rheoliadau 6 a 7 o Reoliadau Adeiladu 2010 i ganiatáu'r defnydd o ddeunyddiau sy'n cyrraedd dosbarth A2fl-s1 neu A1fl
- Mae'r papur hwn hefyd yn gwneud cais am dystiolaeth ynglŷn â nifer y setiau o risiau mewn adeiladau ac i ddileu pob cyfeiriad at ddsbarthiadau tân BS 476 yn Nogfen Gymeradwy B

Sut i ymateb

Gallwch e-bostio eich ymateb i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn i'r canlynol:

enquiries.brconstruction@llyw.cymru

Os ydych yn ymateb yn ysgrifenedig, nodwch yn glir i ba ymgynghoriad a chwestiynau rydych yn ymateb iddynt:

Diwygiadau ynglŷn â chladin llosgadwy a diogelwch tân.

Dylid anfon ymatebion ysgrifenedig i'r cyfeiriad canlynol:

Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Pan fyddwch yn ymateb, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn cadarnhau p'un a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cyflwyno ymateb swyddogol ar ran sefydliad, ac yn cynnwys:

- eich enw
- eich swydd (os yw'n berthnasol)
- enw'r sefydliad (os yw'n berthnasol)
- cyfeiriad (gan gynnwys cod post)
- cyfeiriad e-bost
- rhif ffôn cyswllt

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd ar gais.

Manylion cyswllt

Ar gyfer unrhyw ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â thîm Rheoliadau Adeiladu Llywodraeth Cymru drwy e-bostio:

enquiries.brconstruction@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth:

Rheoliadau Adeiladu

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays,

Caerdydd,

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 062 8144

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgwymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddiill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

E-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Cefndir	1
Rhan 1	2
Cynigion ynglŷn â gwahardd cladin llosgadwy	2
Adeiladau a gwmpesir gan y gwaharddiad	2
Newid y mathau o adeilad	2
Pennu terfynau ar ddeunyddiau llosgadwy ar adeiladau penodol 11-18m	3
Deunyddiau Cyfansawdd Metel.....	4
Atodion	5
Esemptiadau	7
Gwydr lamedig.....	8
Cydrannau toeau.....	9
Deunyddiau islaw lefel y ddaear.....	9
Profi Lloriau	10
Rhan 2	10
Systemau rhybudd i wacáu	10
Blychau gwybodaeth diogel.....	11
Arwyddion tywys.....	12
Dosbarthiadau tân Ewropeaidd	13
Cais am dystiolaeth	14
Dosbarthiadau tân Ewropeaidd	14
Ail set o risiau	14
Asesiadau o Effaith	15
Y Camau Nesaf	16

Cyflwyniad

1. Yn 2018, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar wahardd defnyddio deunyddiau llosgadwy yn waliau allanol mathau penodol o adeiladau uchel iawn ac arnynt. Yn dilyn yr ymgynghoriad, diwygiwyd Rheoliadau Adeiladu 2010 ("Rheoliadau Adeiladu") i gyfyngu ar y defnydd o ddeunyddiau llosgadwy mewn waliau allanol ac atodion penodedig ac arnynt i restr o ddeunyddiau sy'n hanfodol ar gyfer adeiladu ond nad oes dewis anllosgadwy amgen ar gael ar eu cyfer.
2. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau Adeiladu a Dogfen Gymeradwy B , ac mae iddo ddwy ran:
3. **Rhan 1**
 - Newid y mathau o adeilad a gwmpesir gan y gwaharddiad
 - Pennu terfynau ar ddefnyddio deunyddiau llosgadwy ar adeiladau penodol 11-18m (gweler Diagram C6, Atodiad C yn Nogfen Gymeradwy B Cyf 2) drwy newidiadau i Ddogfen Gymeradwy B a gwahardd defnyddio deunyddiau cyfansawdd metel sydd â chraidd polyethylen
 - Cynnwys cynhyrchion cysgodi rhag yr haul yn y gwaharddiad
 - Diwygio'r esemptiadau i'r gwaharddiad
 - Newid gofynion perfformiad y gwaharddiad
4. **Rhan 2**
 - Cyflwyno System Rhybudd i Wacáu i'w chyflwyno yn unol â BS 8629 mewn blociau newydd o fflatiau (Grŵp diben 1 (a)) sydd â llawr uchaf 18m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch
 - Cyflwyno Blychau Gwybodaeth Diogel ym mhob bloc newydd o fflatiau (Grŵp diben 1(a)) sydd â llawr uchaf dros 11 metr uwchlaw lefel y ddaear
 - Cyflwyno dulliau o adnabod lloriau ac arwyddion tywys i fflatiau mewn blociau newydd o fflatiau (Grŵp Diben 1 (a)) sydd â lloriau dros 11m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch
 - Diwygio dosbarthiadau BS EN 13501 a BS 476 a ddefnyddir yn y Rheoliadau Adeiladu a/neu Ddogfen Gymeradwy B (Diogelwch Tân)
5. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn cynnwys cais am dystiolaeth ynglŷn â'r canlynol:
 - Nifer y setiau o risiau mewn adeiladau uchel iawn
 - Dileu'r cyfeiriadau at ddogfeniadau BS 476 a ddefnyddir yn Nogfen Gymeradwy B (Diogelwch Tân)

Cefndir

6. Mae'r Rheoliadau Adeiladu yn ei gwneud yn ofynnol i waliau allanol adeiladau atal tân rhag lledaenu dros y waliau ac o un adeilad i un arall yn ddigonol (Paragraff B4 o Atodlen 1) a rhoddir canllawiau statudol yn Nogfen Gymeradwy B (Diogelwch Tân) Cyfrolau 1 a 2.
7. Yn dilyn yr ymgynghoriad yn 2018, gwnaed newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu (drwy OS 2019/1499) a Dogfen Gymeradwy B a ddaeth i rym ar 13 Ionawr 2020. Diwygiodd yr OS y Rheoliadau Adeiladu, gan gyfyngu ar y defnydd o ddeunyddiau mewn wal allanol ac atodion penodedig i'r rhai sy'n cyrraedd Dosbarth A2-s1, d0 neu Ddosbarth A1 yn unol â BS EN 13501-1:2018. Y flaenoriaeth oedd gwella

diogelwch y cyhoedd a gwneud y llwybr tuag at gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu yn fwy eglur.

8. Mae'r gwaharddiad yn gymwys i waith adeiladu, fel y'i diffiniwyd yn Rheoliad 3 o'r Rheoliadau Adeiladu, gan gynnwys codi adeiladau newydd a newidiadau defnydd sylweddol, ar adeiladau sydd â llawr 18 metr uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch sy'n cynnwys un neu fwy o anheddau, sy'n sefydliad, neu'n ystafell at ddibenion preswyl (heb gynnwys hosteli, gwestai na thŷ preswyl).

Rhan 1

Cynigion ynglŷn â gwahardd cladin llosgadwy

9. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn a thystiolaeth ategol ar y cynigion isod, a nodir mwy o fanylion a rhesymau ynglŷn â phob cynnig yn yr adrannau y cyfeirir atynt.
 - Newid y mathau o adeilad a gwmpesir gan y gwaharddiad
 - Gwahardd deunyddiau llosgadwy ar gladin a deunydd inswleiddio adeiladau 11-18m drwy newidiadau i Ddogfen Gymeradwy B
 - Deunyddiau cyfansawdd metel
 - Atodion
 - Esemptiadau
 - Newid gofynion perfformiad y gwaharddiad

Adeiladau a gwmpesir gan y gwaharddiad

10. Ar hyn o bryd, mae'r gwaharddiad yn gymwys i gyfyngu ar ddefnyddio deunyddiau mewn wal allanol ac mewn atodion penodedig er mwyn cyrraedd Dosbarth A2-s1, d0 neu Ddosbarth A1 yn unol â BS EN 13501-1:2018. Mae'n gymwys i uchder llawn waliau allanol adeiladau sydd â llawr 18 metr uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch ac sy'n cynnwys un neu fwy o anheddau, sy'n sefydliad, neu'n ystafell at ddibenion preswyl, ac mae'n cynnwys fflatiau, llety myfyrwyr a chartrefi gofal, ond nid yw'n cynnwys hosteli, gwestai, na thai preswyl.
11. Roedd adeiladau eraill nad oeddent o fewn cwmpas y gwaharddiad (er enghraifft, swyddfeydd) yn esempt am fod iddynt risg diogelwch tân is fel arfer, oherwydd llai o bresenoldeb dros nos (h.y. dim risg cysgu) a darperir darpariaethau diogelwch tân gwahanol ar eu cyfer er mwyn bodloni gofynion swyddogaethol y Rheoliadau Adeiladu na'r adeiladau hynny sydd o fewn cwmpas y gwaharddiad.

Newid y mathau o adeilad

12. Ar hyn o bryd, mae'r gofyniad swyddogaethol yn Rhan B4 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau Adeiladu yn gymwys i bob adeilad sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau Adeiladu, ni waeth beth yw gofynion y gwaharddiad. Felly, mae'n rhaid i ddylunwyr sicrhau bod yr adeilad yn atal tân rhag lledaenu dros y waliau allanol yn ddigonol.
13. O ystyried y risgiau gwahanol mewn mathau eraill o adeilad a'r canllawiau gwell, yn ein barn ni, nid oes angen newid y gwaharddiad i gwmpasu pob math ychwanegol o

adeilad. Mae'r brif risg yn bresennol pan fydd pobl yn cysgu ar safle, felly ein cynnig yw y dylid ehangu'r gwaharddiad i gwmpasu adeiladau eraill lle ceir risg cysgu.

14. Mae gwestai a hosteli wedi cael eu staffio dros nos yn draddodiadol ac maent yn mabwysiadu dull cyfannol o bennu trefniadau dianc mewnol. Gall y rhain gynnwys trefniadau rheoli, sawl llwybr dianc, arwyddion dianc, goleuadau argyfwng i helpu pobl i adael yr adeilad, a lefelau uwch o systemau canfod tân a larwm o gymharu ag adeiladau preswyl. Maent hefyd yn cael eu rheoleiddio gan Wasanaethau Tân ac Achub o dan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân).
15. Fodd bynnag, nodwn duedd newydd i beidio â staffio gwestai na hosteli dros nos na chynnig trefniadau cofrestru ffisegol mewn rhai o'r gwestai mwyaf newydd sy'n arwain at oblygiadau posibl o ran risg cysgu gan y byddai preswylwyr fel arfer yn llai cyfarwydd â'u hamgylchedd nag y byddent pe baent yn eu cartrefi eu hunain.
16. Felly, rydym yn gofyn am safbwyntiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynglŷn â manteision neu anafanteision cynnwys gwestai, hosteli a thai preswyl o fewn cwmpas rheoliad 7 (4), sy'n gwahardd defnyddio deunyddiau llosgadwy ar waliau allanol ac atodion penodedig.

Cwestiwn 1

A ydych yn cytuno y dylid bellach gynnwys gwestai, hosteli a thai preswyl, fel y cyfeirir atynt yn y diffiniad o ystafell at ddibenion preswyl yn rheoliad 2, yn rheoliad 7(4) o Reoliadau Adeiladu 2010, ac felly eu gwneud yn ddarostyngedig i'r gwaharddiad? Os nad ydych yn cytuno, rhowch eich rhesymau a thystiolaeth.

Cwestiwn 2

A ddylid cynnwys unrhyw fathau eraill o adeilad o fewn cwmpas y gwaharddiad? Rhowch fanylion a thystiolaeth i ategu'ch ateb.

Pennu terfynau ar ddeunyddiau llosgadwy ar adeiladau penodol 11-18m

17. Wrth ystyried adeiladau rhwng 11-18m â diben preswyl, mae'n bosibl eu bod yn agored i lefelau gwahanol o risg tân i'r rhai 18m ac uwch. Fodd bynnag, er bod rhywfaint o dystiolaeth, nid oes unrhyw dystiolaeth wyddonol gadarn rydym yn ymwybodol ohoni sy'n cefnogi hyn yn llwyr. Rydym o'r farn bod angen diwygiadau o hyd i wneud defnyddwyr yr adeiladau hyn yn fwy diogel.

Lleihau'r trothwy o ran uchder drwy ddiwygiadau i Ddogfen Gymeradwy B

18. Rydym yn ymwybodol bod rhanddeiliaid o'r farn bod y gwaharddiad ar adeiladau 18m neu'n uwch yn "ateb trwsgl" nad yw'n caniatáu i ddylunwyr ac ati ystyried risg adeiladau unigol. Mae'r gwaharddiad yn gymwys i'r wal gyfan yn hytrach nag elfennau penodol ohoni (e.e. cladin) a all achosi anawsterau anfwriadol i'r diwydiant o ran dylunio waliau (e.e. cynnwys cydrannau plastig risg isel) a dod o hyd i ddeunyddiau.

19. Y cynnig yw y dylid cadw'r gwaharddiad ar adeiladau sydd â llawr 18m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch lle mae rheoliad 7(2) yn gymwys a diwygio Dogfen Gymeradwy B i gyflwyno canllawiau statudol newydd ar gyfer adeiladau sydd â llawr 11-18m (gweler Diagram C6, Atodiad C yn Nogfen Gymeradwy B Cyf 2), gan bennu terfynau a argymhellir ynglŷn â hylosgedd deunyddiau a ddefnyddir yn y wal. Y bwriad fyddai gwrthannog y defnydd amhriodol o ddeunyddiau llosgadwy yn yr adeiladau hyn. Mae perthynas rhwng lefel y risg mewn adeiladau a'u uchder, ac rydym yn cynnig ymateb cymesur lle mae'r cyfyngiadau ar ddylunwyr a datblygwyr yn cynyddu yn ôl uchder adeilad.
20. Ein cynigion yw, mewn adeiladau sy'n cynnwys diben 'preswyl' (grwpiau diben 1 a 2) sydd â llawr 11-18m (gweler Diagram C6, Atodiad C yn Nogfen Gymeradwy B Cyf 2), y dylai unrhyw gynnyrch inswleiddio, deunydd llenwi (megis deunyddiau craidd paneli cyfansawdd metel, paneli rhyngosod a phaneli sbandrel ffenestri ond heb gynnwys gasgedi, selyddion nac eitemau cyffelyb) ac ati a ddefnyddir wrth adeiladu wal allanol fod yn rhai dosbarth A2-s1, d0 neu well. Nid yw'r cyfyngiad hwn yn gymwys i adeiladu waliau ceudod cerrig sy'n cydymffurfio â Diagram 34 o Adran 10 o Ddogfen Gymeradwy B. Pan fo rheoliad 7(2) yn gymwys, mae'r rheoliad hwnnw yn drech na'r holl ddarpariaethau yn y paragraff hwn. Drwy ganolbwyntio ar y cynnyrch inswleiddio a'r cladin yn unig, rydym yn canolbwyntio ar gydrannau mwyaf allweddol y wal ac yn cynnig newid mawr allweddol o gymharu â'r sefyllfa bresennol.
21. Fel rhan o'r dull gweithredu hwn, byddem hefyd yn lleihau uchder yr adeiladau y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r gofynion yn B4(1) o Atodlen 1 i'r Rheoliadau Adeiladu, pan fydd yr adeilad cyfan yn mynd drwy newid defnydd sylweddol yn unol â rheoliad 6(1)(c), o 15m i 11m. Drwy hyn bydd ddylunwyr a datblygwyr yn gallu arfer eu barn broffesiynol i ryw raddau ond byddwn hefyd yn gosod disgwyliadau clir.

Cwestiwn 3

A ydych yn cytuno y dylai'r diwygiad i Ddogfen Gymeradwy B er mwyn pennu terfynau ar gynhyrchion llosgadwy penodol gael ei bennu ar gyfer adeiladau sydd â llawr 11-18m (gweler Diagram C6, Atodiad C yn Nogfen Gymeradwy B Cyf 2)? Rhowch dystiolaeth.

Cwestiwn 3a

A oes trothwy is amgen o ran uchder y dylid ei ystyried? Rhowch dystiolaeth.

Deunyddiau Cyfansawdd Metel

22. Mae ymchwil Llywodraeth y DU i risg tân gwahanol ddeunyddiau cladin, gan gynnwys y deunydd cyfansawdd alwminiwm ("ACM") â chraidd polyethylen a ddefnyddiwyd ar Dŵr Grenfell yn nodi mai cynhyrchion â chraidd polyethylen yw'r deunyddiau cladin mwyaf peryglus o bell ffordd, o blith y rhai a brofwyd.

23. Rydym o'r farn bod defnyddio cynhyrchion â chraidd polyethylen fel deunyddiau cladin yn peri risg mor sylweddol o dân fel y gellir cyfiawnhau gwaharddiad llwyr ar eu defnyddio ar unrhyw adeiladau, ni waeth beth fo uchder na diben yr adeilad.
24. Yn Ne Cymru Newydd, Awstralia, mae'r defnydd o gladin ACM (y mae ei graidd yn cynnwys 30% neu fwy o bolyethylen yn ôl màs) wedi cael ei wahardd (yn weithredol o 15 Awst 2018) mewn amrywiol fathau o adeilad. Fodd bynnag, ceir eithriadau os tybir bod y cynnyrch yn anllosgadwy yn unol â Safon 1530.1 Awstralia neu y gall strwythur arfaethedig y wal allanol lwyddo mewn prawf ar gyfer atal tân rhag lledaenu i waliau allanol ac atal tân rhag lledaenu o un adeilad i un arall yn unol â Safon 5113 Awstralia (sy'n pennu meini prawf perfformiad ar gyfer cynnyrch a brofir yn unol â BS 8414 neu ISO 13785-2).

25. Ein diffiniad arfaethedig o ddeunyddiau i'w gwahardd yw:

“unrhyw banel neu ddalen o drwch nad yw'n fwy na 10mm, sy'n cynnwys nifer o haenau y mae dwy neu ragor ohonynt wedi eu gwneud o fetel, aloi neu gyfansoddyn metel: ac y mae un neu ragor ohonynt yn sylweddol ac wedi eu gwneud o ddeunydd sydd â gwerth caloriffig gros o fwy na 35 MJ/kg o'i brofi yn unol â BS EN ISO 1716.

Haen sylweddol yw un sydd o leiaf 1mm o drwch neu sydd â màs fesul arwynebedd uned o 1kg y m² o leiaf;”

26. Rydym yn gofyn am safbwyntiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynglŷn â hyn.

Cwestiwn 4

A ydych yn cytuno y dylid gwahardd paneli cyfansawdd metel â chraidd polyethylen rhag cael eu defnyddio wrth adeiladu waliau allanol unrhyw adeilad, ni waeth beth fo'i uchder na'i ddiben? Os nad ydych yn cytuno, rhowch dystiolaeth i ategu'ch ateb.

Cwestiwn 5

Pe bai'r defnydd a wneir ohonynt yn cael ei gyfyngu, a ydych yn cytuno â'r diffiniad arfaethedig? Rhowch dystiolaeth i ategu'ch ateb.

Atodion

27. Mae'r gwaharddiad ar ddeunyddiau llosgadwy yn cynnwys rhai atodion penodedig i'r wal allanol. Mae'n ofynnol i'r rhain fodloni gofynion perfformiad rheoliad 6(3) a rheoliad 7(2). Rhestrir yr atodion penodedig presennol yn rheoliad 2(6)(b):

- a) “a balcony attached to an external wall”
- b) “a solar panel attached to an external wall”

28. Rydym yn gofyn am safbwyntiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch a oes cydrannau ychwanegol a ddefnyddir fel atodion i waliau allanol y dylid eu cynnwys yn y gwaharddiad er mwyn cyflawni'r nodau polisi o leihau'r perygl i fywyd o ganlyniad i dân allanol yn lledaenu mewn adeiladau a gwmpesir gan y gwaharddiad.

29. Ystyriwyd cynhyrchion cysgodi rhag yr haul megis bleinds, caeadau, cysgodlenni, brise soleil a chynhyrchion tebyg adeg y gwaharddiad gwreiddiol ond nis cynhwyswyd. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd lleihau achosion o orgynhesu mewn preswylfeydd ac adeiladau eraill, a chyfraniad cynhyrchion cysgodi rhag yr haul yn hyn o beth.
30. Rydym o'r farn y gallai cynhyrchion cysgodi rhag yr haul a wnaed o ddeunyddiau llosgadwy, ar waliau allanol adeilad, greu llwybr i dân ledaenu. Mae cynhyrchion cysgodi rhag yr haul anllosgadwy ar gael ar y farchnad ar hyn o bryd ond nid yw'r rhain yn rhai ôl-dynadwy fel arfer ac nid ydynt wedi'u gwneud o ddeunyddiau hyblyg. Felly, y ffordd gliriaf o sicrhau diogelwch yw cymhwyso gofynion y gwaharddiad ar y defnydd o ddeunyddiau llosgadwy at gynhyrchion cysgodi rhag yr haul a atodir i waliau allanol adeiladau perthnasol (fel y'u diffiniwyd yn rheoliad 7(4)).
31. Ein diffiniad arfaethedig ar gyfer cynhyrchion cysgodi rhag yr haul yw "*dyfais a atodir i wal allanol leihau enillion gwres o fewn adeilad drwy allwyo heulwen.*"
32. Rydym yn cydnabod y gall cysgodlenni ôl-dynadwy gynnig manteision i safleoedd masnachol ar lefel ddaear adeiladau defnydd cymysg. Gan gadw hyn mewn cof, rydym yn gofyn am safbwyntiau ar esemptio cysgodlenni, yn enwedig cysgodlenni ôl-dynadwy dros siopau ar lefel y ddaear. Rydym yn croesawu safbwyntiau ynglŷn â pha gyfyngiadau, os o gwbl, y gellid eu gosod ar ddefnyddio'r cynhyrchion hyn.

Cwestiwn 6

A ydych yn cytuno bod angen i gynhyrchion cysgodi rhag yr haul gyrraedd dosbarth A2-s1, d0 neu A1? Os nad ydych yn cytuno, rhowch eich rhesymau a thystiolaeth.

Cwestiwn 7

A ydych yn cytuno â'r diffiniad arfaethedig o gynhyrchion cysgodi rhag yr haul? Os nad ydych yn cytuno, pa ddiffiniad arall y byddech yn ei gynnig a pham? Rhowch eich rhesymau a thystiolaeth.

Cwestiwn 8

A ydych yn cytuno â'n cynnig i esemptio cysgodlenni ar lefel y ddaear? Os nad ydych yn cytuno, rhowch eich rhesymau a thystiolaeth.

Cwestiwn 9

A oes unrhyw gydrannau ychwanegol eraill a ddefnyddir fel atodion i waliau allanol y dylid eu cynnwys yn y gwaharddiad fel y'u diffiniwyd yn rheoliad 2(6)(b)? Os oes, pa gydrannau ychwanegol y dylid eu cynnwys a pham?

Esemptiadau

33. Mae'r gwaharddiad ar ddeunyddiau llosgadwy sy'n weithredol ar hyn o bryd yn cynnwys pob un o elfennau adeiladu wal o'r wynebau allanol i'r wynebau mewnol yn ogystal ag atodion penodedig. Mae'r rhestr o gydrannau esempt yn rheoliad 7(3) yn un gul, a hynny'n fwriadol, gyda'r nod o gyfyngu ar y defnydd o ddeunyddiau llosgadwy mewn waliau allanol ac atodion penodedig hyd y gellir er mwyn lleihau i ba raddau y mae strwythur waliau allanol yn cyfrannu at ledaenu tân i'r eithaf. Mae'r rhestr bresennol o esemptiadau yn unol â rheoliad 7(3) fel a ganlyn:

- pilenni
- unrhyw ran o do
- fframiau a gwydr ffenestri
- fframiau drws a drysau
- deunyddiau atal thermol
- hambyrddau ceudod pan gânt eu defnyddio rhwng dwy haen o gerrig
- seliau, gasgedi, gosodion, selyddion a rhodenni cefnogi
- deunyddiau chwyddedig a deunyddiau atal tân
- deunyddiau inswleiddio a gwrth-ddŵr a ddefnyddir islaw lefel y ddaear
- gosodiadau trydanol

34. Rydym o'r farn y dylid diwygio'r rhestr uchod o esemptiadau:

- (a) i ddileu cydrannau pan fydd cynhyrchion anllosgadwy amgen ar gael
- (b) i gynnwys cydrannau nad ydynt eisoes ar y rhestr, ond y nodwyd eu bod yn hanfodol i adeiladu waliau allanol, ac y mae'r gwaharddiad ar eu defnyddio yn creu problemau sylweddol ar gyfer prosiectau adeiladu o ran cost a dilyniannu

35. Ar hyn o bryd, mae'r gwaharddiad yn esemptio gosodiadau trydanol yn strwythur waliau allanol megis ceblau gwifro a socedi. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ymestyn i geblau ffeibr optig am nad yw'r gwifrau hyn yn dargludo cerrynt. Mae'n eithaf cyffredin i geblau ffeibr optig a cheblau tebyg gael eu llwybro drwy waliau allanol adeiladau wrth ôl-osod ceblau ffeibr optig. Felly, rydym yn cynnig y dylid esemptio ceblau ffeibr optig ochr yn ochr â gosodiadau trydanol.

36. Rydym hefyd yn ceisio mewnbwn drwy'r ymgynghoriad hwn ynghylch a oes unrhyw gydrannau eraill y gellid eu dileu neu eu hychwanegu at y rhestr o esemptiadau.

37. Nododd yr adolygiad a gynhaliwyd yn Lloegr¹ mai dim ond 26.5% o'r rhanddeiliaid hynny yn y diwydiant a arolygwyd yn haf 2019 a oedd yn credu y dylid tynnu rhai esemptiadau yn ôl. Wrth ymgysylltu â'r diwydiant, tynnwyd sylw hefyd at sawl cydran o wal allanol nad oeddent yn esempt, nad ydynt yn cyfrannu fawr ddim at ledaenu unrhyw dân posibl ym marn y rhanddeiliaid ac yr oedd y gwaharddiad ar eu defnyddio wedi gosod baich sylweddol ar y diwydiant. Nododd yr arolwg o rhanddeiliaid y diwydiant fod 79.5% o'r ymatebwyr yn credu ei bod yn anodd dod o hyd i gynhyrchion amgen a nododd 52.9% bod y gwaharddiad wedi effeithio ar amseroedd cyflawni prosiectau newydd.

¹ [Arolwg o safbwyntiau rhanddeiliaid y diwydiant \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk)

38. Rydym yn ymwybodol o broblemau yn y diwydiant o ran cynhyrchion sydd wedi eu gwahardd ar hyn o bryd megis ffliwiau boeleri sydd â leinin mewnlol plastig, a phryderon ynglŷn â'r defnydd o baent ar waliau cerrig sydd yn aml yn cael eu paentio ar y safle, sy'n ei gwneud yn anodd rheoli trwch y paent a ddefnyddir. Rydym yn gofyn am safbwyntiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynglŷn â materion o'r fath.
39. Nod y gwaharddiad ar ddeunyddiau llosgadwy oedd rhoi eglurder i ddylunwyr drwy ddileu'r hyblygrwydd sydd ar gael i'r diwydiant adeiladu. Gwnaed hyn er mwyn lleihau'r perygl posibl i fywyd o ganlyniad i dân mewn adeiladau newydd a gwmpesir gan y gwaharddiad.

Cwestiwn 10

A ydych yn cytuno y dylid esemptio ceblau ffeibr optig rhag y gwaharddiad? Os nad ydych yn cytuno, rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 11

Pa gydrannau, os oes rhai, na ddylid eu cynnwys yn y rhestr o esemptiadau yn rheoliad 7(3) mwyach, yn eich barn chi, a pham?

Cwestiwn 12

Pa gydrannau ychwanegol, os oes rhai, a ddylid eu cynnwys yn y rhestr o esemptiadau yn rheoliad 7(3), a pham?

Gwydr lamedig

40. Caiff gwydr lamedig ei wneud o ddwy haen o wydr ynghyd â rhyng-haen finyl organig o hyd at 3mm o drwch a ddefnyddir i rwymo haenau'r gwydr at ei gilydd. Mae gwydr (gan gynnwys gwydr lamedig) yn esempt ar hyn o bryd rhag rheoliad 6(3) a rheoliad 7(2) ond dim ond pan fydd wedi'i gynnwys mewn ffrâm ffenestr. Am resymau esthetig, defnyddir gwydr lamedig yn aml wrth adeiladu balconïau.
41. Nododd yr adolygiad yn Lloegr nad oes unrhyw wydr lamedig ar gael ar hyn o bryd at ddefnydd allanol sy'n bodloni'r dosbarthiad priodol (dosbarth A1 neu A2-s1, d0) oherwydd y rhyng-haen.
42. Ar hyn o bryd, prin yw'r dystiolaeth wyddonol i ganfod y risg a achosir drwy ddefnyddio gwydr lamedig mewn balconïau. I'r perwyl hwn, rydym yn cynnig y dylid casglu tystiolaeth ynglŷn â risg tân balwstradau gwydr cyn ystyried a ddylid esemptio gwydr lamedig mewn balconïau.

Cwestiwn 13

A ydych yn cytuno y dylai gwydr laminedig a ddefnyddir i adeiladu balconïau barhau i gyrraedd dosbarthiad A2-s1, d0 neu A1? Rhowch dystiolaeth i ategu'ch ateb lle y bo modd a thrafodwch ddeunyddiau neu gynhyrchion penodol.

Cydrannau toeau

43. Mae cynllun y cyswlltle rhwng wal allanol a tho yn aml yn golygu bod angen i'r pilenni a ddefnyddir wrth adeiladu'r to ymestyn i mewn i'r wal allanol gyda'r nod o atal dŵr rhag mynd i mewn.
44. Mae pilenni a ddefnyddir fel rhan o wal allanol yn y rhestr o gydrannau esempt yn rheoliad 7(3). Mae Dogfen Gymeradwy B yn argymhell y dylai pilenni a ddefnyddir fel rhan o strwythur wal allanol gyrraedd dosbarthiad B-s3, d0.
45. Nid yw toeau pig ar ongl o lai na 70 gradd i'r llorwedd wedi eu cynnwys yn y diffiniad o wal allanol (gweler rheoliad 2(6)(a)(iv)). Dim ond pan fydd y rhan honno o'r to yn cyffwrdd â gofod y mae pobl yn cael mynediad iddo (ac eithrio os mai dim ond at ddibenion atgyweiriadau a/neu waith cynnal a chadw y ceir mynediad) y mae toeau pig ar ongl o fwy na 70 gradd i'r llorwedd yn rhan o'r wal allanol. Mae rhannau o do (oni bai eu bod wedi'u cynnwys yn rheoliad 2(6)(iv)) hefyd yn esemptiadau a restrwyd yn rheoliad 7(3)(b) lle maent wedi eu cysylltu â wal allanol.
46. Ymddengys fod rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â pharhad pilenni a ddefnyddir mewn system do os yw'n parhau hyd at y wal allanol. Byddem yn croesawu safbwyntiau ynghylch a oes angen mwy o eglurder yn y Rheoliadau Adeiladu neu Ddogfen Gymeradwy B ar gyfer y cydrannau hyn a chydrannau tebyg.

Cwestiwn 14

A ydych yn cytuno bod angen rhagor o eglurder yn y rheoliadau neu yn Nogfen Gymeradwy B nad oes angen i bilenni to gyrraedd dosbarthiad A2-s1, d0 neu ddosbarthiad uwch pan gânt eu defnyddio fel rhan o do sy'n cysylltu â wal allanol? Os nad ydych yn cytuno, rhowch esboniad ynghyd â thystiolaeth i ategu'ch ateb lle y bo modd a thrafodwch ddeunyddiau neu gynhyrchion penodol.

Deunyddiau islaw lefel y ddaear

47. Mae deunyddiau gwrth-ddŵr ac inswleiddio a ddefnyddir wrth adeiladu waliau allanol islaw lefel y ddaear yn esempt rhag gofynion rheoliad 6(3) a rheoliad 7(2), a hynny am fod angen i'r cynhyrchion hyn fod yn ddiddos hefyd. Cododd adolygiad Llywodraeth y DU fater ymarferol lle mae angen i'r deunyddiau hyn barhau uwchlaw lefel y ddaear er mwyn atal gwlybanaeth rhag treiddio i mewn i'r waliau allanol, a allai arwain at broblemau gyda dŵr yn dod i mewn a lleithder.
48. Rydym yn gofyn am safbwyntiau ynglŷn â diwygio'r esemptiad presennol yn rheoliad 7(3)(e) ar gyfer deunyddiau gwrth-ddŵr ac inswleiddio i gynnwys deunydd

a ddefnyddir islaw lefel y ddaear a hyd at 300mm uwchlaw lefel y ddaear, y tybir ei fod yn unol â gofynion arferol. Y tebyg yw na fyddai hyn yn cael unrhyw effaith ar risg tân ac y byddai'n osgoi problemau eraill i bobl yn eu cartrefi.

Cwestiwn 15

A ydych yn cytuno â'r cynnig i ehangu'r esemptiad i ddefnyddio deunyddiau gwrth-ddŵr ac inswleiddio o islaw lefel y ddaear hyd at 300mm uwchlaw lefel y ddaear? Os cytunwch, pa amodau eraill y dylid eu gosod ar y defnydd a wneir ohonynt, os o gwbl?

Profi Lloriau

49. Mae dosbarthiadau A2 ac A1 yn gymwys i ddeunyddiau a brofir yn fertigol fel wal. Mae dosbarthiadau amgen ar gael ar gyfer deunyddiau a brofir yn llorweddol fel llawr, sef Dosbarth A2fl-s1 ac A1fl. Ar hyn o bryd, dim ond yn unol â dosbarthiad A2fl-s1 neu A1fl y caiff sawl cynnyrch a ddefnyddir ar gyfer lloriau balconi eu profi ac, fel y cyfryw, nid ydynt yn bodloni gofynion rheoliad 6(3) a 7(2).
50. O dan ddosbarthiad A2fl-s1 ac A1fl mae angen i ddeunyddiau fodloni gofynion llym yn debyg i Ddosbarth A2-s1, d0 neu A1. Mae angen i ddeunyddiau Dosbarth A2fl-s1 ac A1fl gyrraedd perfformiad tebyg pan gânt eu profi yn y prawf ffwrnes diwb (BS EN ISO 1182) neu'r prawf calorimedr bom (BS EN ISO 1716). Fodd bynnag, mae angen i'r deunyddiau sy'n cyrraedd y dosbarthiadau hyn hefyd gael eu profi'n llorweddol (BS EN ISO 9239-1) yn hytrach nag yn fertigol (BS EN 13823).
51. Rydym yn cynnig y dylid ehangu rheoliad 6(3) a rheoliad 7(2) i ganiatáu defnyddio deunyddiau sy'n cyrraedd Dosbarth A2fl-s1 neu A1fl fel rhan o'r gofyniad perfformiad i'w cynnwys mewn atodion penodedig wrth gael eu defnyddio'n llorweddol.

Cwestiwn 16

A ydych yn cytuno â'r cynnig i ehangu'r dosbarthiadau sy'n angenrheidiol ar gyfer deunyddiau a ddefnyddir yn llorweddol i gynnwys Dosbarth A2fl-s1 ac A1fl? Os nad ydych yn cytuno, esboniwch pam a rhowch dystiolaeth lle y bo modd.

Rhan 2

52. Mae cynigion ychwanegol sy'n ymwneud â diogelwch tân rydym yn bwriadu eu cyflwyno ochr yn ochr â'r newidiadau hyn. Nodir y rhain isod.

Systemau rhybudd i wacáu

53. Argymhellodd Ymchwiliad Tŵr Grenfell² "That all high-rise residential buildings be equipped with facilities for use by the fire and rescue services enabling them to

² Adroddiad Cam 1 (Hydref 2019) Cyfrol 4 tudalen 777 Adran IV Is-adran 12 Paragraff 33.22d

send an evacuation signal to the whole or a selected part of the building by means of sounders or similar devices.”

54. Cyflwynwyd Safon Brydeinig (BS 8629) ym mis Hydref 2019, er mwyn darparu cod ymarfer ar ddyllunio, gosod, comisiynu a chynnal a chadw Systemau Rhybudd i Wacáu i'w defnyddio gan wasanaethau tân ac achub mewn adeiladau sy'n cynnwys fflatiau.
55. Effeithiau bwriadedig yr argymhelliad a BS 8629 yw sicrhau bod gan ddiffoddwyr tân ffordd ddewisol o rybuddio preswylwyr bod angen iddynt adael yr adeilad fel rhan o gynllun rheoledig, fesul cam os bydd tân difrifol a bod y person sy'n gyfrifol am yr adeilad sydd o fewn y cwmpas wedi cynnwys y System Rhybudd i Wacáu yn ei gynllun gwacáu mewn argyfwng.
56. Ein cynnig yw y dylid diwygio'r canllawiau technegol yn Nogfen Gymeradwy B i'w gwneud yn ofynnol darparu systemau rhybudd i wacáu mewn blociau newydd o fflatiau (Grŵp diben 1(a)) sydd â llawr uchaf 18m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch. Ni fydd ein cynigion yn gymwys i adeiladau presennol.

Cwestiwn 17

A ydych yn cytuno â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol darparu systemau rhybudd i wacáu mewn blociau newydd o fflatiau 18m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch? Os nad ydych yn cytuno, rhowch eich rhesymau a thystiolaeth.

Cwestiwn 18

A ydych yn cytuno â'r trothwy uchder o 18m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch? Os nad ydych yn cytuno, nodwch drothwy uchder amgen ac unrhyw dystiolaeth.

Cwestiwn 19

A oes unrhyw fathau eraill o adeiladau y dylid eu cynnwys? Rhowch unrhyw dystiolaeth.

Blychau gwybodaeth diogel

57. Argymhellodd adroddiad Cam 1 Ymchwiliad Tŵr Grenfell y dylid darparu blychau gwybodaeth diogel ar gyfer blociau newydd o fflatiau (Grŵp Diben 1(a)), gyda llawr 11m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch. Mae blwch gwybodaeth diogel yn cynnig cyfleuster diogel i storio gwybodaeth am adeilad i'w defnyddio gan y gwasanaeth tân yn ystod digwyddiad. Os bydd gwybodaeth ar gael, gall hynny helpu'r gwasanaeth tân i benderfynu ar y strategaeth gywir i ddiffodd y tân ar y cyfle cynharaf posibl, yn enwedig ar gyfer adeiladau sydd â chynllun mawr, cymhleth neu anghyffredin.
58. Rydym yn cynnig y dylid diwygio'r canllawiau technegol yn Nogfen Gymeradwy B i gynnwys darpariaeth i gyflwyno Blychau Gwybodaeth Diogel ym mhob bloc newydd o fflatiau sydd â llawr 11m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch. Dylai'r blwch fod o faint addas i gynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, dylai fod yn hawdd i ddiffoddwyr tân ddod o hyd iddo a'i adnabod a dylai fod yn ddiogel rhag mynediad

anawdurdodedig (ond yn hawdd i ddiffoddwyr tân ei agor) a'r tywydd. Rydym hefyd yn cynnig y dylid cyfeirio at Adrannau 2 i 4 o 'The Code of Practice for the Provision of Premises Information Boxes in Residential Buildings' a gyhoeddwyd gan Gymdeithas y Diwydiant Tân yn Nogfen Gymeradwy B fel canllawiau pellach ar arferion gorau.

Cwestiwn 20

A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylid cyflwyno gofyniad ar gyfer Blychau Gwybodaeth Diogel ym mhob bloc newydd o fflatiau sydd â llawr 11m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch? Os nad ydych yn cytuno, rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 21

A ydych yn cytuno â'r trothwy uchder o 11m? Os nad ydych yn cytuno, nodwch drothwy uchder amgen ac unrhyw dystiolaeth.

Cwestiwn 22

A oes unrhyw fathau eraill o adeiladau y dylid eu cynnwys? Rhowch unrhyw dystiolaeth.

Arwyddion tywys

59. Nododd adroddiad Cam 1 Ymchwiliad Tŵr Grenfell nad oedd arwyddion clir ar bennau grisiau yn yr adeilad yn nodi rhif y llawr perthnasol, ac felly nad oedd yn hawdd i'r diffoddwyr tân adnabod lloriau'n hawdd wrth gyflawni eu dyletswyddau. Argymhellodd yr Ymchwiliad (Argymhelliad 33.27) ym mhob adeilad uchel iawn y dylai "floor numbers be clearly marked on each landing within the stairways and in a prominent place in all lobbies in such a way as to be visible both in normal conditions and in low lighting or smoky conditions."³
60. Mae angen dull mwy cyson o ddarparu arwyddion tywys drwy wneud newidiadau bach ond ystyrion i Ddogfen Gymeradwy B. Ar y sail hon, dylid darparu arwyddion i nodi'r llawr ar ben pob set o risiau a ddiogelir ac ym mhob coridor/cyntedd a ddiogelir y mae lifft diffodd tân yn ymagor iddo. Dylid hefyd ddefnyddio arwyddion i nodi rhifau fflatiau a'u hategu â saethau lle y bo angen.
61. Mae'r opsiynau a nodwyd gennym yn amrywio o rifau syml, mawr wedi'u paentio i rifau ffoto-ymoleuol a fyddai'n weladwy hyd yn oed lle mae mwg wedi mynd i mewn i dwll grisiau. Credwn y gallai'r rhain gael eu darparu am gost gymharol isel ond y byddai'n gyfraniad pwysig i ddiogelwch adeiladau. Mae BS 9991 eisoes yn argymhell y dylid darparu arwyddion sy'n dangos rhifau lloriau. Fodd bynnag, ni ragnodir unrhyw fformat (maint/dyluniad) ar gyfer yr arwyddion sydd i'w darparu.

³ Tud. 778 [HC 49-IV – The Grenfell Tower Inquiry: Phase 1 Report - Volume 4 of 4](#) ↵

62. Felly, rydym yn cynnig y dylid diwygio Dogfen Gymeradwy B i ddarparu y dylai arwyddion tywys gael eu darparu ar gyfer y gwasanaeth tân ym mhob bloc newydd o fflatiau (Grŵp Diben 1 (a)) sydd â llawr 11m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch.

Cwestiwn 23

A ydych yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno arwyddion tywys ar gyfer y gwasanaeth tân ym mhob bloc newydd o fflatiau (Grŵp Diben 1(a)) sydd â llawr 11m uwchlaw lefel y ddaear neu'n uwch? Os nad ydych yn cytuno, rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 24

A ydych yn cytuno â'r trothwy uchder o 11m? Os nad ydych yn cytuno, nodwch drothwy uchder amgen ac unrhyw dystiolaeth.

Cwestiwn 25

A oes unrhyw fathau eraill o adeiladau y dylid eu cynnwys? Rhowch unrhyw dystiolaeth.

Dosbarthiadau tân Ewropeaidd

63. Mae llawer o'r canllawiau yn Nogfen Gymeradwy B o ran dosbarthiadau perfformiad yn cyfeirio at Safonau Prydeinig neu fersiynau Prydeinig o Safonau Ewropeaidd. Ers dechrau'r 2000au bu dull deul o ddsbarthu perfformiad o ran adwaith cynhyrchion adeiladu i dân a gallu cynhyrchion adeiladu i wrthsefyll tân. Mae'r defnydd o fersiwn Safonau Prydeinig o'r Dosbarthiad Ewropeaidd wedi dileu'r angen i barhau i ddefnyddio'r dosbarthiad cenedlaethol.
64. Roedd rhedeg y system ddeuol yn ffordd o bontio rhyngddynt a byddai'r Safon Brydeinig yn cael ei disodli gan safon ryngwladol fwy cadarn a chyfredol, ond ni chafodd y broses bontio erioed ei chwblhau'n derfynol. Roedd disgwyl y byddai'r system ddsbarthu genedlaethol yn cael ei thynnu'n ôl ac felly nid yw safonau cyfres BS 476 wedi cael eu hadolygu gan y Sefydliad Safonau Prydeinig yn fanwl ers peth amser (dros 20 mlynedd ar gyfartaledd). Mae newidiadau diweddar i Ddogfen Gymeradwy B hefyd wedi pwysleisio'r defnydd o gyfres BS EN 13501 o brofion yn hytrach na defnyddio dosbarthiadau cenedlaethol (BS 476).
65. Yn ystod Ymchwiliad Tŵr Grenfell, craffwyd ar y defnydd o'r safonau dosbarthu cenedlaethol ar gyfer adwaith i dân a'r gallu i wrthsefyll tân yn Nogfen Gymeradwy B, a nodwyd diffygion posibl yn y defnydd a wneir ohonynt.
66. Fel cam cyntaf yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn cynnig y dylid dileu'r cyfeiriad at y dosbarthiadau cenedlaethol ym mhrif gorff Dogfen Gymeradwy B ond y dylid parhau i'w cynnwys yn yr atodiadau.

Cwestiwn 26

A ydych yn cytuno y dylid dileu'r dosbarthiadau cenedlaethol ar gyfer adwaith i dân a'r gallu i wrthsefyll tân ym mhrif gorff Dogfen Gymeradwy B? Os ydych yn anghytuno, pa dystiolaeth y gallwch ei chynnig sy'n amlinellu pam.

Cais am dystiolaeth

67. Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn rhannau eraill o Ran B lle mae angen gwneud newidiadau o bosibl, sef y defnydd o ddsbarthiadau tân a setiau unigol o risiau. Wrth ystyried y meysydd hyn, ystyriwch:

- Pa faterion y mae angen eu datrys?
- Pam y dylid eu hadolygu?
- Pa dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli?
- Beth yw effeithiau posibl (cadarnhaol a negyddol) newid?
- Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych chi neu'ch sefydliad i ategu'ch awgrym.

Dosbarthiadau tân Ewropeaidd

68. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi cynnig y dylid dileu'r holl gyfeiriadau at ddsbarthiadau cenedlaethol BS 476 ym mhrif gorff Dogfen Gymeradwy B ac y dylid eu cadw yn yr atodiadau. Wrth baratoi ar gyfer cynigion pellach i ddiwygio Dogfen Gymeradwy B, rydym hefyd yn gwneud cais am dystiolaeth ynglŷn â dileu pob cyfeiriad at gyfres BS 476 o ddsbarthiadau cenedlaethol yn Nogfen Gymeradwy B.

69. Hoffem glywed am yr effaith bosibl ar y diwydiant, sy'n nodi'r prif gynhyrchion/sectorau y byddai newid o'r fath yn effeithio arnynt fwyaf. Rydym ar ddeall, yn seiliedig ar ddadansoddiad gan Lywodraeth y DU, fod y rhan fwyaf o fusnesau yn trefnu i'w cynhyrchion gael eu profi i'r safon ryngwladol ar hyn o bryd, ac mai dim ond is-set fach o'r farchnad sy'n dal i ddefnyddio dosbarthiad BS 476.

Cwestiwn 27

Amlinellwch unrhyw bryderon (fel y'u hawgrymwyd ym **mharagraff 65 uchod**) sydd gennych am ddileu pob cyfeiriad at gyfres BS 476 o ddsbarthiadau cenedlaethol yn Nogfen Gymeradwy B (gan gynnwys atodiadau).

Ail set o risiau

70. Ar hyn o bryd, ar gyfer blociau o fflatiau, nid yw Dogfen Gymeradwy B yn pennu trothwy lle mae'n rhaid ystyried mwy nag un set o risiau.

71. Mae'n achos pryder inni fod rhai adeiladau preswyl uchel yn cael eu dylunio ag un set o risiau heb ystyriaeth briodol gan y dylunwyr ynglŷn â lefel y diogelwch a gynigir a'r cydnerthedd angenrheidiol. Mae grisiau yn ffordd hanfodol o ddianc i breswylwyr os bydd argyfwng ac maent yn cynnig pwynt mynediad i bob llawr mewn

adeilad i'r gwasanaethau brys. Yn ein barn ni, mae darparu ail set o risiau yn gallu cynnig rhai manteision mewn adeiladau preswyl uchel iawn megis mwy o gydnerthedd ar gyfer digwyddiadau eithafol a llai o wrthdaro rhwng ymatebwyr brys sy'n mynd i mewn i adeilad a'r rhai sy'n ceisio dianc ohono, gan leihau'r risg y bydd mwg yn mynd i mewn i dwll grisiau "dianc". Hefyd, drwy ddarparu ail set o risiau, bydd ffordd arall o ddianc ar gael i breswylwyr os bydd un llwybr yn mynd yn llawn mwg.

72. Fel maes newydd, mae angen adolygu'r sylfaen dystiolaeth a deall y risgiau'n well. Codwyd pryderon, er enghraifft, y gallai darpariaeth i gynnwys ail set o risiau wneud datblygiadau yn anhyfiw oherwydd lleihad yn yr arwynebedd llawr gwerthadwy a chostau cynyddol. Ceir pryderon hefyd nad yw pob ail set o risiau yn cynnig yr un fantais i gyfiawnhau eu cynnwys.
73. Felly, rydym yn gwneud cais am dystiolaeth ynglŷn â'r angen am ail set o risiau uwchlaw uchder penodol. Hoffem glywed am fanteision hyn, ystyriaethau dylunio penodol (e.e. digon o bellter a gwahanu rhwng pwyntiau mynediad i risiau annibynnol er mwyn gwrthsefyll tân) yn ogystal â'r effeithiau negyddol posibl ar ddyluniad a chostau adeiladau.

Cwestiwn 28

A ydych o'r farn y dylai Dogfen Gymeradwy B gynnwys uchafswm trothwy ar gyfer darparu un set o risiau mewn adeiladau preswyl? Wrth roi'ch ateb, ystyriwch y canlynol:

- (a) Ar ba uchder y dylid pennu'r trothwy, yn eich barn chi?
- (b) Pa ystyriaethau dylunio a ddylai gael eu hystyried wrth ei gwneud yn ofynnol darparu ail set o risiau? (e.e. gwahanu priodol rhwng y setiau o risiau).

Rhowch dystiolaeth i ategu'ch ateb.

Cwestiwn 29

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol yn y papur hwn. Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ynglŷn ag unrhyw un o'r cynigion, nodwch nhw yma.

Asesiadau o Effaith

74. Mae'r adroddiad ar wahân yn nodi canlyniad dadansoddiad cost a budd o gynigion Llywodraeth Cymru. Hoffem glywed eich barn ar yr effeithiau a nodwyd.

Cwestiwn 30

A ydych yn cytuno â'r amcangyfrifon o gostau a'r Asesiad cyffredinol o'r Effaith? Os nad ydych yn cytuno, esboniwch yr hyn sy'n briodol yn eich barn chi a rhowch dystiolaeth i ddangos pam.

75. Hoffem hefyd glywed eich barn ar effaith bosibl y cynigion ar y Gymraeg.

Cwestiwn 31

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r diwygiadau arfaethedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 32

Esboniwch hefyd sut rydych yn credu y gellid llunio neu newid y camau gweithredu arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, heb unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Y Camau Nesaf

76. Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 09 Ionawr 2024. Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu dadansoddi a bydd Ymateb Llywodraeth Cymru yn dilyn.